



Mabon ap Gwynfor AS

30 Ionawr 2023

Annwyl Mabon,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 10 Ionawr fe godoch chi ymholiad yn ystod y Cwestiynau Busnes ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau asesiadau Cymraeg amserol i blant y mae angen asesiad awtistiaeth arnynt. Gan fod polisi niwroamrywiol yn rhan o fny mhorthfolio i, hoffwn i ymateb.

Mae defnyddio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac sy'n seiliedig ar anghenion a llesiant emosiynol pob unigolyn. Mae'r [Cynllun Pum Mlynedd Mwy na Geiriau](#) yn amlinellu ein cynllun o ran sut byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un o gamau gweithredu hirdymor (erbyn 2027) y cynllun yw "Ei gwneud yn bosibl i ddatblygu adnoddau ac asesiadau diagnostig Cymraeg safonol er mwyn helpu siaradwyr Cymraeg mewn meysydd blaenoriaeth penodol fel iechyd meddwl, anabledau dysgu, a phobl â nam ar eu golwg. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ddatblygu set genedlaethol o asesiadau safonol ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd â dementia." Caiff hyn ei fonitro gan ddiweddariad ysgrifenedig ar gynnydd y camau gweithredu yn flynyddol.

Ym mis Gorffennaf y llynedd, gwnaethom gyhoeddi'r [Cod Ymarfer Statudol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru](#) (Y Cod). Mae'r Cod a'r ddogfen [ganllaw](#) ategol yn nodi'r hyn y gall pobl awtistig, eu rhieni a'u gofawyr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd ar gyfer byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a'u partneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau presennol mewn perthynas â chynnyg gwasanaethau awtistiaeth ar sail anghenion.

Nodir drwy gydol y Cod hwn, wrth gyfeirio at wybodaeth, asesiadau a chymorth, y dylid eu cynnyg yn Gymraeg a Saesneg. Rhaid i'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau a chynnyg darpariaeth yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'u gwaith cynllunio a chyflenwi a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnyg i siaradwyr Cymraeg awtistig heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Y rheswm am hyn yw efallai y bydd rhai plant a phobl am

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddewis Cymraeg fel eu dewis iaith, a bydd hyn yn effeithio ar ganlyniadau asesiadau a gynhelir yn Saesneg.

Eleni, rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth. Un o'r meysydd y bydd y gwaith hwn yn ei ystyried fydd sut mae byrddau iechyd lleol yn bodloni gofynion y Cod ac, os oes dyletswydd nad yw'n cael ei chyflawni – beth yw'r problemau sy'n eu hatal rhag ei chyflawni a sut gallant oresgyn hyn.

Y llynedd, cynhaliwyd [adolygiad o'r galw, capasiti a chynllun gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru](#). Nod yr adolygiad oedd datblygu argymhellion ac opsiynau a lywiwyd gan dystiolaeth er mwyn gwella gwasanaethau. Un o'r prif broblemau a nodir yw bod y rhan fwyaf o wasanaethau niwroddatblygiadol yn ei chael hi'n anodd darparu 'cynnig gweithredol' yn Gymraeg, o ystyried diffygion yn eu sgiliau Cymraeg. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o gamau y gellir eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, ond mae'n esbonio bod problemau ehangach na'r gallu i gynnal asesiadau niwroddatblygiadol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a'r gallu i gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Mae angen addasu'r asesiadau eu hunain gan wneud newidiadau i fodloni profiadau diwylliannol siaradwyr Cymraeg. Mae'r problemau cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth yn golygu bod angen i'r clinigydd mewn asesiad gael sgiliau iaith ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol dda iawn (e.e. i ddarllen iaith y corff) ac felly nid yw'n fater o ddarparu gwersi Cymraeg i'r staff yn unig.

Cyhoeddais ym mis Gorffennaf y llynedd, yn ogystal â mwy na £11.5 miliwn sydd eisoes wedi'i fuddsoddi i wella gwasanaethau awtistiaeth dros y tair blynedd nesaf, y byddaf yn cynnig £12 miliwn er mwyn cefnogi rhaglen wella genedlaethol newydd ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol yn 2025.

Bydd gan y rhaglen wella dair prif ffrwd waith, er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr *Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yng Nghymru* a'r adborth gan deuluoedd niwrowahanol yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn ystyried asesiadau awtistiaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ac oedolion.

Hoffwn eich sicrhau ein bod yn gweithio'n galed i gyflenwi gwasanaethau niwroamrywiol gwell i bawb. Mae iaith a gofal yn mynd law yn llaw a hoffwn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gael triniaeth a gofal yn ddiogel, gydag urddas a pharch.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services